Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 425

**Amseru: Taer**

**Teitl: Estyn portffolio Ymgynghorydd Polisi ar gyfer Plant a Phobl Ifainc**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Staffio**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 18/12/2024, fe wnaeth CHTh ac yna'r PG gymeradwyo sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar y cyd i ddatblygu gwasanaeth ymyrraeth, atal ac ymgysylltu i blant sy'n seiliedig ar bartneriaeth yn y dyfodol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Mapiodd y grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolydd o SCHTh, arferion presennol, nodi bylchau a chael gwell dealltwriaeth o wasanaethau HDP a phartneriaid a gynigir i blant. Arweiniodd hyn at gynllun fesul cam i gyflenwi gweithgareddau peilot cymeradwy a chyflwyno ymagwedd ymyrraeth partneriaeth ddiwygiedig fesul cam. Profodd y cymorth a ddarparwyd gan Ymgynghorydd Polisi Dros Dro SCHTh yn hollbwysig o ran sicrhau datblygiad amserol o'r prosiect i gynllun gweithredu ac arweiniodd at HDP yn gofyn am barhad a mwyhad o'r cymorth hwn. Gan hynny, ceisiodd HDP a SCHTh estyn cytundeb y daliwr swydd presennol am gyfnod o 6 mis i ddarparu adnodd penodol i'r tîm prosiect barhau drwy'r cam gweithredu. Byddai'r daliwr swydd yn aros yn y swydd dros dro o fewn SCHTh i alluogi goruchwyliaeth barhaus gan y CHTh, ond gan eistedd o fewn tîm Atal, Ymyrraeth ac Ymgysylltu HDP am gyfer tasgau o ddydd i ddydd.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo estyniad o'r swydd Ymgynghorydd Polisi dros dro i 31 Mawrth 2026 i gefnogi cyflenwi prosiect Atal, Ymyrryd ac Ymgysylltu HDP, i'w ariannu drwy gronfa arloesedd CHTh.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dvddiad: 05/08/2025**